# RHYS, WILLIAM JOSEPH (1880 - 1967), gweinidog (B) ac awdur

**Enw:** William Joseph Rhys
**Dyddiad geni:** 1880
**Dyddiad marw:** 1967
**Priod:** Annie Lydia Rhys (née Morgan)
**Priod:** Bessie Gwen Rhys (née Morris)
**Rhiant:** Esther Rees
**Rhiant:** Thomas Rees
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (B) ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Mary Auronwy James

Ganwyd 12 Chwefror 1880 yn fab i Thomas ac Esther Rees, Pen-y-bryn, Llangyfelach, Morgannwg. Aeth ef a'i ddau frawd - M.T. Rees, Meinciau a D.H. Rees, Cyffordd Llandudno - i'r weinidogaeth. Perthynai ei dad i Morgan Rees a fu'n gyfrwng i godi Capel Salem, Llangyfelach yn 1777, tra oedd ei fam o linach Moses Williams, Llandyfân. Aeth o'r ysgol i weithio mewn siop fwydydd yn Abergwynfi ond anogwyd ef i fynd i'r weinidogaeth, felly aeth i Ysgol y Gwynfryn, Rhydaman, yn 1901 a Choleg y Bedyddwyr, Bangor (1903-06) pryd y daeth o dan ddylanwad nerthol y diwygiad. Bu'n weinidog ar eglwysi Horeb, Maenclochog, a Smyrna, Cas-mael, Penfro (1906-25), a Dinas Noddfa, Gland r, Abertawe (1925-47). Ymddeolodd i'r Gelli, Rhondda.

Ymddengys iddo ddechrau ymddiddori yn hanes ei enwad pan oedd tua hanner cant oed. Dros y 30 mlynedd ar ôl cyhoeddi yn *Seren Gomer* (1934-35) ' Hanes dechreuad y Bedyddwyr yng Ngland r, Abertawe ” cafwyd llif cyson o erthyglau ganddo yn *Seren Cymru*, *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, a *Seren Gomer*, gyda cholofn ' Cronicl yr eglwysi '; yn ymddangos yn gyson yn y cylchgrawn olaf o 1954 hyd 1966 pan gafodd ei daro gan y parlys mud. Ysgrifennodd erthyglau i'r *Bywgraffiadur Cymreig* hefyd. Dyfarnwyd gwobr iddo am waith ar ' Arweinwyr cymdeithasol Bedyddwyr Cymru ' ac un arall am draethawd maith ar ' Fywyd a gwaith James Spinther James ' (llawysgrif LlGC 12603 D) yn 1938. Comisiynwyd ef i ysgrifennu hanes Coleg y Bedyddwyr yn Llangollen a Bangor; a hanes y Cymry a hyfforddwyd yng Ngholeg Bedyddwyr Bryste. Cyhoeddodd *A brief history of the Baptists in Wales* (1956), a *Penodau yn Hanes y Bedyddwyr Cymreig, 1649-1949* (1949), cyfrol sy'n ffynhonnell werthfawr a dibynadwy o hanes yr enwad. Bu'n awdur neu olygydd hanes tua 50 o eglwysi, gan gynnwys dwsin a mwy o gyfrolau safonol megis *Hanes Seion, Treforus, 1845-1945*, a'r olaf a wnaeth, sef hanes Noddfa, Treorci, lle'r oedd yn aelod.

Priododd (1), yn 1910, â Bessie Gwen Morris (bu farw 6 Mawrth 1960), Treorci; a (2), 1961, ag Annie Lydia Williams (bu farw 19 Gorffennaf 1965), gweddw David Pryse Williams, gweinidog (B), Treherbert. Bu farw 22 Hydref 1967 yn ei gartref, Y Wenallt, 14 Stryd Bute, Treherbert.

## Awdur

**Dr Mary Auronwy James**

## Ffynonellau


*Dyddiadur a Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru*, 1968, 342

*Seren Gomer* 59 (1967), 89-90

*Seren Cymru*, 1 Rhagfyr 1967, 5


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734669


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu